**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Ebrill 20fed 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Tecwyn Evans, Gwyn Williams, Ifor Edwards, Cyngh Dilwyn O Roberts

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ian W Griffith, Elen H Edwards, Gwydion A Jones a'r Clerc.

52.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

52.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod Mawrth 23ain 2016 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu derbyn fel cofnod cywir.

52.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
52.3.1 LLWYBR DROS AFON RHYDLECHOG – gwelwyd bod angen dwy gamfa ar y llwybr a chlirio coed. Nid oedd Emlyn Williams yn meddwl bod angen pont. PENDERFYNWYD i ofyn i Gyngor Conwy am arian i wneud y gwaith ac i ofyn i Kevin Roberts fynd i olwg y llwybr a rhoi pris. Byddai Emlyn Williams yn fodlon ei gyfarfod ar y safle.
52.3.2 TORRI MYNWENTYDD – roedd Mr Evans yn barod i wneud y gwaith eleni gyda'i fab er mwyn cadw at y cytundeb.
52.3.3 SCIPIAU CYMUNEDOL – roedd y scipiau wedi eu harchebu ar gyfer Mai 11eg yn Llangernyw, Mai 12fed ym Mhandy Tudur a Mai 13eg yng Ngwytherin
52.3.4 DIWRNOD TACLUSO LLANGERNYW – PENDERFYNWYD i'w gynnal ddydd Sadwrn Mai 14eg am 9.30 y bore gyda gweithiwr o Cadwch Gymru'r Daclus. Angen hysbysebu drwy'r ysgol, ar bosteri, ar y wefan ac yn papur dyddiol.

52.4 MATERION YR AMGYLCHEDD
52.4.1 PEINTIO ARHOSFANNAU BWS – roedd Aelwyd Bro Cernyw ac Aelwyd 7-9 wedi cwblhau'r gwaith ar y ddau arhosfan bws yn Llangernyw. PENDERFYNWYD i ysgrifennu atynt i ddiolch iddynt a'u canmol am wneud gwaith mor daclus.
52.4.2 PONT DROS AFON DYFFRYN GALL – adroddwyd i ni gael cyfarfod safle gyda Mr Bryn Shilland, Adran Strwythurau fore Gwener Ebrill 15fed (Gwynfor Davies, Ian Griffith, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Gwenda Vaughan, Neil Jones, Carol Walker a'r Clerc). Cynigwyd yn y cyfarfod y byddai llwybr cerdded dros dro yn cael ei wneud dros y bont a man parcio ceir yn y cae ar fin y ffordd fawr ac arwyddion addas i arafu modurwyr wrth deithio drwy Bandy Tudur. Mynegwyd ein pryderon wrth y Cynghorydd Dilwyn Roberts a soniwyd am gyfarfod safle arall gyda Mr David Jones AS a Wiliam Roberts o Adran Traffig y sir a'r Cynghorydd Roberts a gynhelir fore Gwener Ebrill 29ain.

52.5 TOILEDAU LLANGERNYW – roedd Cyngh Dilwyn Roberts wedi gofyn i'r Adran Amgylchedd agor a rhedeg y toiledau nes bydd Menter Bro Cernyw wedi ei sefydlu ac roeddynt wedi cytuno ar hyn. Cynigiodd Elen Edwards holi'r Adran beth oedd y datblygiadau erbyn hyn.

52.6 GWEFAN Y CYNGOR – roedd rhai o'r aelodau wedi bwrw golwg ar y wefan a gweld bod angen ei diweddaru. Roedd Elen Edwards yn awyddus i gael hyfforddiant. PENDERFYNWYD i

roi nodyn yn y Gadlas o dan y tri phentref yn atgoffa pawb i edrych ar y wefan ac i anfon newyddion a lluniau i Mr Arfon Parry. www.brocernyw.cymru

52.7 MATERION CYNLLUNIO
52.7.1 CAIS RHIF 0/42602 Addasiadau a thrawsnewid adeiladau fferm i ffurfio 6 o unedau gwyliau (gan gynnwys 1 uned staff ac 1 uned hygyrch), mynediad, parcio, ceubwll, gwaith atodol yn Hendre Ddu, Llangernyw gan Mr & Mrs P & L James
52.7.2 CAIS RHIF 0/42603 Addasiadau a thrawsnewid adeiladau fferm i ffurfio 6 o unedau gwyliau (gan gynnwys 1 uned staff ac 1 uned hygyrch), mynediad, parcio, ceubwll, gwaith atodol (Caniatad Adeilad Rhestredig) yn Hendre Ddu, Llangernyw gan Mr & Mrs P & L James. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r ceisiadau hyn.
52.7.3 CAIS RHIF 0/42643 Tystysgrif datgblygiad cyfreithlon presennol ar gyfer 1)adeiladu a defnyddio annedd 2)defnyddio annedd heb gydymffurfio ag amod rhif 4 caniatad cynllunio 1/LGW/5215 ac amod caniatad cynllunio 0/37890 yn Esgair Eithin, Llangernyw gan Mr & Mrs T Davies. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
52.7.4 Apêl Plas Isaf, Llangernyw (0/42046) Tyrbin gwynt sengl o hyd at uchafswm o 77m i'r llafn, ynghyd ag isadeiledd cysylltiedig gan gynnwys trac mynediad a chwt trydanol gan Clean Earth Energy. PENDERFYNWYD nad oedd gennym sylwadau pellach ar y cais.

52.8 CÔD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG 2016 – y Clerc i anfon copi o'r Côd i bob aelod a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.

52.9 ARCHWILIAD BLYNYDDOL 31 MAWRTH 2106 – PENDERFYNWYD i ofyn i Mrs Gwenda Cooper archwilio'r llyfrau eto eleni.

52.10 GWASANETH NYRSIO ARDAL YNG NGOGLEDD CYMRU – angen eu hanfon ar ebost i'r aelodau.

52.11 RHEOLIADAU CYLLIDOL – angen eu hanfon ar ebost i'r aelodau.l

52.12 GRANTIAU TESCO – i'w hanfon i'r aelodau.

52.13 MATERION LLEOL
52.13.1 Cafwyd cais am wybodaeth ynglŷn â gwaith ar yr Afon Derfyn ac roedd y Clerc wedi ateb gan ddweud nad oedd gennym wybodaeth am waith yno.
52.13.2 Ffordd yn rhoi ar ôl y tro ar allt Waterloo – hyn wedi ei ddwyn i'w sylw o'r blaen.
52.13.3 Lamp gyferbyn â'r Graig, Llangernyw ddim yn gweithio.
52.13.4 Lamp yn sgwâr Gwytherin ddim yn gweithio a lamp ger y capel ymlaen ddydd a nos.
52.13.5 Hysbysfwrdd twristiaeth yn Llangernyw angen ei lanhau – cynigiodd Diane Roberts wneud y gwaith.
52.13.6 Twll yn y ffordd ger Pen Llethr.
52.13.7 Adroddodd Emlyn Williams iddo fod yn y cyfarfod Dementia yn Llanrwst – angen rhoi gwybodaeth yn y Cylchlythyr.
52.13.8 Dŵr yn llifo i'r A548 ar ôl Dol Bach i gyfeiriad Llanrwst.
52.13.9 Tybiau Blodau – penderfynwyd gofyn i'r Clwb Garddio blannu blodau haf ynddynt eto eleni – Ann Vaughan am holi.
52.13.10 Angen rhoi staen ar feinciau'r Ardd Goffa yn Llangernyw – yr Ardd angen ei thwtio oherwydd bod arddangosfa yn y Cwm ddiwedd mis Mai i gofio'r Rhyfel Mawr.
52.13.11 Pwyllgor Cylchlythyr – nos Fercher Ebrill 27ain.

52.13.12 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor – Nos Fercher Mai 25ain. Pasiwyd i wahodd Darren Millar neu Llyr Huws Gruffudd i fod yn siaradwr gwadd.
52.13.13 Y Clerc i wneud cais am arian Melinau Gwynt ac ychwanegu chwyddiant.
52.13.14 Draen wedi cau ar ffordd Bryn Aber, Pandy Tudur.
52.13.15 Gofyn i'r Cyngor roi tarmac lawr yng nghilfan Glan Rhyd, Pandy Tudur – llawer yn parcio yno a loriau mawr a thractorau yn baeddu'r lle.

52.14 BILIAU

| | |
|---|---|
| Cwrs Un Llais Cymru | £20 |
| Cyflog a Chostau Clerc | £820.28 |
| Cyllid y Wlad | £6.20 |
| Canolfan Gwytherin (hurio) | £40 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y cofnodion …D G Davies….. Dyddiad …25/5/16……………….*

Community Council Meeting was held on Wednesday, 20 April 2016 at 7.30 pm at Pandy Tudur Community Centre

Apologies: Tecwyn Evans, Gwyn Williams, Ifor Edwards, Cllr Dilwyn O Roberts

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ian W Griffith, Elen H. Edwards, Gwydion A Jones & Clerk.

52.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.

52.2 Minutes - viewed minutes of March 23rd 2016 and RESOLVED unanimously to accept as a correct record.

52.3 ISSUES ARISING
52.3.1 PUBLIC FOOTPATH OVER RIVER RHYDLECHOG - two stiles was needed on the path and some trees needed clearing. Emlyn Williams did not think that a bridge was necessary. RESOLVED to ask Conwy Council for permission to do the work and ask Kevin Roberts to look at the route and give a price. Emlyn Williams would be willing to meet on site.
52.3.2 GRASS CUTTING IN CEMETERY - Mr. Evans was prepared to do the job this year with his son in order to keep to the agreement.
52.3.3 COMMUNITY SKIPS - the skips had been ordered for May 11 in Llangernyw, May 12 in Pandy Tudur and May 13 in Gwytherin.
52.3.4 TIDYING UP LLANGERNYW - RESOLVED to be held on Saturday May 14 at 9.30 a.m. in collaboration with Keep Wales Tidy. Need to advertise through the school, on posters, on the website and in a daily newspaper.

52.4 ENVIRONMENT ISSUES
52.4.1 PAINTING BUS SHELTERS – Aelwyd Bro Cernyw and Aelwyd 7-9 had completed

the work on the two bus shelters in Llangernyw. RESOLVED to write to them to thank them and praise them for doing tidy work.
52.4.2 AFON DYFFRYN GALL BRIDGE - a site meeting was held with Mr. Bryn Shilland, Structures Department on Friday April 15 (Gwynfor Davies, Ian Griffith, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Gwenda Vaughan, Neil Jones, Carol Walker and Clerk). In the meeting a temporary walkway was discussed which would allow pedestrians to cross the bridge and a car park in the field on the verge of the A548 road and also to erect signs to slow motorists while traveling through Pandy Tudur.
Our concerns were expressed to Councillor Dilwyn Roberts and another site meeting was mentioned with Mr David Jones MP and William Roberts of the county Traffic Department and Councillor Roberts to be held on Friday April 29th.

52.5 LLANGERNYW TOILETS - Cllr Dilwyn Roberts has asked the Department of Environment to open and run the toilets until Menter Bro Cernyw has been established and they had agreed on this. Elen Edwards offered to ask the Department what were the developments to date.

52.6 COUNCIL WEBSITE - some of the members have looked at the website and see that it needs to be updated. Elen Edwards is eager to be trained to edit the website. RESOLVED to publicize in the Gadlas under the three villages to remind everyone to look at the website and to send news and photos to Mr Arfon Parry. www.brocernyw.cymru

52.7 PLANNING MATTERS
52.7.1 APPLICATION NUMBER 0/42602 Alterations and conversion of farm buildings to form 6 holiday units (including one accessible unit and 1 staff unit), access, parking, cesspit, ancillary works at Hendre Ddu, Llangernyw by Mr & Mrs P & L James
52.7.2 APPLICATION NUMBER 0/42603 Alterations and conversion of farm buildings to form 6 holiday units (including one accessible unit and 1 staff unit), access, parking, cesspit, ancillary works (Listed Building Consent) at Hendre Ddu, Llangernyw by Mr & Mrs P & L James.
RESOLVED unanimously to support these applications.
52.7.3 APPLICATION NUMBER 0/42643 Certificate of current legal development for 1) the construction and use of a dwelling 2) use of dwelling without compliance with condition 4 of planning permission 1 / LGW / 5215 and is a condition of planning permission 0/37890 Esgair Eithin, Llangernyw by Mr & Mrs T Davies. RESOLVED unanimously to support the application.
52.7.4 Plas Isaf, Llangernyw Appeal (0/42046) Single wind turbine up to a maximum of 77m of the blade, along with associated infrastructure including access tracks and electric huts by Clean Earth Energy. RESOLVED that we had no further comment on the application.

52.8 REVISED CODE OF CONDUCT 2016 - The Clerk to send a copy of the Code to all members and discuss at the next meeting.

52.9 ANNUAL AUDIT 31 MARCH 2016 - RESOLVED to ask Mrs Gwenda Cooper to audit the accounts again.

52.10 NURSING SERVICE NORTH WALES AREA - need to be sent by email to members.

52.11 FINANCIAL REGULATIONS - need to be sent by email to members.

52.12 TESCO GRANTS - to be sent to members.

52.13 LOCAL ISSUES
52.13.1 There was a request for information about work at Afon Derfyn and the Clerk had replied saying we did not have information about the work there.
52.13.2 The road on the Waterloo hill needs attention (road moving) - this has been brought to the Department's attention previously.
52.13.3 Lamp opposite Y Graig, Llangernyw not working.
52.13.4 Lamp at Gwytherin square not working and lamp near the chapel on day and night.
52.13.5 Tourism sign in Llangernyw needs cleaning - Diane Roberts offered to do the work.
52.13.6 Pot hole near Pen Llethr.
52.13.7 Emlyn Williams reported on a Dementia meeting in Llanrwst - the need to include information in the Newsletter.
52.13.8 Water flows on to the A548 after Dol Bach in direction of Llanrwst.
52.13.9 Flower Tubs - decided to ask the Gardening Club to plant flowers again this summer - Ann Vaughan to enquire.
52.13.10 Need to stain Memorial Garden benches in Llangernyw - Garden needs to be tidy because exhibition in the Museum in late May to commemorate the Great War.
52.13.11 Newsletter Committee - Wednesday 27th April.
52.13.12 Annual Council Meeting - Wednesday 25th May. Resolved to invite Darren Millar or Llyr Huws Gruffydd to be a guest speaker.
52.13.13 Clerk to apply for Moelogan funding and to include inflation.
52.13.14 Drain blocked on Bryn Aber road, Pandy Tudur.
52.13.15 To ask the Council to lay tarmac down in Glanrhyd layby, Pandy Tudur – popular parking place and big lorries and tractors are using it and affecting the surface.

52.14 BILLS

| | |
|---|---|
| One Voice Wales course | £ 20 |
| Clerk Salary and Costs | £ 820.28 |
| Inland Revenue | £ 6.20 |
| Gwytherin Centre (hire) | £ 40 |

The meeting came to a close at 9.35 pm.

The minutes were approved .....D G Davies............ .. Date .25/5/16....................